


# Cynllunio Digwyddiadau Ac Ystyriaethau Gwrthderfysgaeth

Cyngor Abertawe
Swansea Council

COUNTER TERRORISM POLICING
PLISMONA GWRTHDERFYSGAETH
WALES CYMRU

# CYNLLUNIO DIGWYDDIADAU AC YSTYRIAETHAU GWRTHDERFYSGAETH

Annwyl drefnydd digwyddiad,

Mae Cyngor Abertawe, Heddlu De Cymru a Phlismona Gwrthderfysgaeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i roi cyngor a chefnogaeth i drefnwyr digwyddiadau ynghylch sut i liniaru'r bygythiad terfysgaeth wrth gynllunio digwyddiad yn ardal Abertawe. Er ein bod yn meddwl bod ein digwyddiad yn ddiogel, mae'r bygythiad o derfysgaeth yn un go iawn ac yn anffodus yn gynyddol anrhagweladwy, gyda mannau cyhoeddus ac ardaloedd gorlawn yn dargedau atyniadol i derfysgwyr.

Ar gyfer y lefelau bygythiad cyfredol yn y DU, ewch i: **https://www.gov.uk/terrorism-national-emergency**

Hoffem i chi ystyried yr hyn y gallwch 'chi' ei wneud i leihau eich risg a lliniaru yn erbyn effaith y fath ymosodiad. Gall sicrhau eich bod wedi cynllunio'n effeithiol leihau'r tebygolrwydd o ymosodiad. Rydym yn gwerthfawrogi nad yw pob digwyddiad yr un peth, er enghraifft:

- Dylai digwyddiadau llai fel ffair bentref ystyried ychwanegu ystyriaethau gwrthderfysgaeth at eu Cynllun Rheoli Digwyddiad/Hasesiad Risg. Dylid ymdrin â hyn mewn cyfarfodydd briffio stiwardiaid a'i ategu gyda hyfforddiant ar-lein byr: 'CT training at your kitchen table' - **https://ct.highfieldelearning.com** a ddarperir gan y Swyddfa Diogelwch a Gwrthderfysgaeth Genedlaethol.

- Byddai angen Cynllun Diogelwch Digwyddiad cyflawn ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth/gwyliau/gwyliau bwyd, stadia chwaraeon mawr etc. ynghyd ag ymarferion rheolaidd.

Efallai eich bod yn gyfarwydd â llunio cynllun ar gyfer eich digwyddiad a byddwch yn gwybod sut i fynd i'r afael â llawer o'r gofynion sy'n ymwneud â diogelwch, ond efallai na fyddwch mor gyfarwydd â materion diogelwch a therfysgaeth yn benodol. Dyma rai o'r pethau yr hoffem i chi eu hystyried wrth roi'ch cynllun ynghyd. Nid yw'n rhestr gyflawn ac ar ddiwedd y ddogfen hon, rydym wedi nodi gwefannau lle gallwch gael rhagor o wybodaeth.

**Cynllunio Diogelwch**

Gan ddibynnu ar y math o ddigwyddiad a'i faint, efallai y bydd angen i chi lunio cynllun diogelwch digwyddiad sy'n ystyried y risg/bygythiad o ymosodiad terfysgol. Os ydych yn ansicr, gall eich rheolyddion lleol fel Heddlu De Cymru, yr Awdurdod Lleol neu Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Abertawe eich cynghori ar y camau priodol a chymesur y dylech eu cymryd wrth gynllunio'ch digwyddiad. Dyma'r materion allweddol y gallech eu cynnwys:

1. Cyn y digwyddiad, sut byddwch chi'n ei hysbysebu? Byddwch yn ofalus i beidio â rhoi gormod o wybodaeth a all gynorthwyo terfysgwr i gynllunio ymosodiad. Ystyriwch beth y gellir ei gynnwys i atal hyn. Gelwir hyn yn gyfathrebiadau atal (ewch i **Communication - GOV.UK (www.gov.uk)**)

2. Eich safle, gan ddechrau o sut i'w gyrraedd, perimedr y safle i'r tu mewn lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal. Beth yw'r risgiau a beth y gallwch chi'i wneud i liniaru yn eu herbyn?

3. Mae cyfathrebu'n allweddol i reoli digwyddiad. A yw'ch dulliau cyfathrebu'n 'addas i'r diben'? Nid yw'n ymwneud â sut rydych chi'n cyfathrebu â'ch staff yn unig, mae'n rhaid i chi gyfathrebu â'r cyhoedd hefyd.

4. Os ydych yn trefnu digwyddiad mawr neu ddigwyddiad cyfranogi torfol ystyriwch gynnal senarios diogelwch neu ymarferion pen-desg gwrthderfysgaeth sy'n cynnwys rheolwr y digwyddiad cyn y digwyddiad.

5. Hyfforddiant ar gyfer staff cyflogedig a gwirfoddolwyr. Mae rhywfaint o hyfforddiant e-ddysgu Ymwybyddiaeth o Weithredu yn Erbyn Terfysgaeth gwych ar gael am ddim sef 'CT training at your kitchen table' i gynyddu ymwybyddiaeth a grymuso'ch staff. I gofrestru ar gyfer hyfforddiant ar-lein, gweler y ddolen ar ddiwedd y daflen hon.

Mae Grŵp Ymgynghori ar Ddiogelwch Abertawe - www.abertawe.gov.uk/organisinganevent yn cynghori pobl yn gryf i gynllunio ar gyfer digwyddiad terfysgaeth ac efallai byddant yn gofyn i chi am fanylion eich **Cynllun Diogelwch Digwyddiad** wrth ystyried eich cais.

Isod ceir y gwefannau lle gallwch gael rhagor o wybodaeth i liniaru ymosodiadau terfysgol a'ch helpu i ddatblygu'ch Cynllun Diogelwch Digwyddiad.

**www.nactso.gov.uk** (Gweler yr ARWEINIAD MANNAU GORLAWN i help i lywio a datblygu'ch Cynllun Diogelwch Digwyddiad Mae'r wefan hefyd yn cynnwys canllawiau cenedlaethol eraill a manylion cynnyrch pwysig sy'n rhad ac am ddim).

**www.cpni.gov.uk** – Cyngor pellach ar fesurau diogelwch amddiffynnol.

'CT training at your kitchen table' - **https://ct.highfieldelearning.com** Datblygwyd yr e-ddysgu Ymwybyddiaeth o ACT sydd wedi ennill gwobrau ar draws y byd mewn partneriaeth â'r cwmni manwerthu enfawr Marks and Spencer a Highfield Learning.

Mae'r cwrs rhyngweithiol sydd ar gael i gwmnïau neu unigolion preifat, yn cymryd 45 munud yn unig i'w gwblhau a gellir ei wneud i gyd mewn un sesiwn, neu fesul modiwl byr. Mae'n egluro sut i adnabod arwyddion ymddygiad amheus a'r hyn i'w wneud i'ch helpu chi, eraill ac ymatebwyr brys os bydd ymosodiad yn digwydd.

